DEDDF Y COMISIWN ARCHWILIO 1998

**Cyfrifon,** y Comisiwn Archwilio Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr, wedi eu paratoi yn unol â pharagraffau 11(1) ac 11(2) o Atodlen 1 i Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998, ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Hydref 1999, yn ogystal â Thystysgrif ac Adroddiad y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol ar y cyfrifon hynny. (Yn dilyn Papur Rhif 592 o 1998-99.)

Cyflwynwyd yn dilyn Deddf y Comisiwn Archwilio 1998, paragraffau 11(1) ac 11(2), Atod. 1

# Y Comisiwn Archwilio Dros Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr Cyfrifon 1998–99

ARCHEBWYD GAN Y TY CYFFREDIN I'W ARGRAFFU AR 12 GORFFENNAF 2000
Cyflwynwyd i'r cynulliad cecdlaethol ar 12 Gorffennaf 2000

**LLUNDAIN: Y Llyfrfa—Stationery Office** **14 July 2000**
**HC 696** **£●**

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhagair** | **1** |
| **Datganiad ar y system o Rheolaeth Ariannol Fewnol** | **7** |
| **Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol I Dair' Senedd ac i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru** | **8** |
| **Cyfrif Incwm a Gwariant** | **9** |
| **Mantolen** | **10** |
| **Datganiad Llif Arian Parod** | **11** |
| **Nodau I'r Cyfrifon** | **12** |
| **Cyfarwyddyd y Cyfrifon** | **23** |
| **Atodlen 1** | **25** |
| **Atodlen 2** | **26** |

# Rhagair i'r cyfrifon

Datganiad Cyfrifon a baratowyd ar ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn unol â pharagraffau 11(1) a 11(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Comisiwn Archwilio 1998.

Caiff swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â'r Comisiwn eu harfer ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, Ysgrifennydd Gwladol Cymru neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y bo'n briodol) a'r Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd.

**Y Cefndir Statudol**

1. Sefydlwyd y Comisiwn Archwilio dros Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr (y Comisiwn) ar 21 Ionawr 1983 gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1982. Corff corfforaethol yw'r Comisiwn a ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 1983. Ar 1 Hydref 1990 daeth yn gyfrifol am archwiliadau allanol o'r Gwasanaeth lechyd Gwladol a newidiwyd ei enw yn Comisiwn Archwilio dros Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth lechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr.

Cafodd Deddf cydgrynhoi sef Deddf Comisiwn Archwilio 1998, gydsyniad brenhinol ym mis Mehefin 1998.

Ymestynnwyd cyfrifoldebau'r Comisiwn ymhellach gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. O dan y Ddeddf hon, bydd archwilwyr a benodwyd gan y Comisiwn yn archwilio Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau (CPGGau) yr awdurdodau lleol a bydd y Comisiwn yn gyfrifol am archwilio'r modd y mae'r awdurdodau'n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf.

2. Penodir Aelodau'r Comisiwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol am gyfnod o dair blynedd fel arfer.

3. Cymeradwyir penodiad y Rheolwr Archwilio (am gyfnod o dair blynedd fel arfer) gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

| *Cadeirydd* | *Contract yn dod i ben ar* |
|---|---|
| Mr C R E Brooke | 30/11/1998 |
| Y Fonesig Helena Shovelton DBE (o 17/12/1998) | 30/11/2001 |
| *Dirprwy Gadeirydd* | |
| Mr J D Orme FCA | 31/10/2000 |
| *Aelordau* | |
| Mr R A Arthur | 30/09/2002 |
| Ms J Baddeley (o 1/9/1999) | 31/10/2002 |
| Dr J Carson | 30/06/2001 |
| Mr J R Foster OBE | 31/10/2001 |
| Mrs A Fresko | 30/06/2002 |
| Y Fonesig Deirdre Hine DBE | Wedi ymddiswyddo 30/09/1999 |
| Ms K Jenkins | 30/06/1999 |
| Syr Peter Kemp FCA | 30/06/1999 |
| Ms R Lowe | 30/06/2001 |
| Yr Athro S Richards | 31/10/2000 |
| Ms H Rowland | 30//06/2001 |

| *Cadeirydd* | *Contract yn dod i ben ar* |
|---|---|
| Syr Peter Soulsby | 31/10/2000 |
| Mrs I Tarry CBE | 31/10/2000 |
| Syr Ron Watson CBE | 31/10/2001 |
| Syr David Williams CBE | 31/10/2000 |
| Mr B Wolfe (from 1/9/1999) | 31/10/2002 |
| Ms E Filkin (o 1/11/1999) | 31/10/2002 |
| Syr Graham Hart (o 1/11/1999) | 31/10/2002 |

*Y Rheolwr Archwilio*

Mr A W Foster

**Dletswyddau'r Comisiwn**

4. Nodir isod grynodeb Wr prif ddyletswyddau a'r pwerau a roddwyd i'r Comisiwn o dan Ddeddf Comisiwn Archwilio 1998 (Deddf 1998) a Deddf Llywodraeth Leol 1999 (Deddf 1999). Am arweiniad manylach, dylid cyfeirio at yr adrannau perthnasol o'r Deddfau.

| *Dyletswyddau* | *Dedff 1998 Act adran* | *Deddf 1999 Act adran* |
|---|---|---|
| Penodi archwilwyr | 3 | |
| Paratoi ac arolygu'r Côd Ymarfer Archwilio a'r Côd Ymarfer er mwyn archwilio Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau (CPGGau). | 4 | 8 |
| Pennu graddfa neu raddfeydd ffioedd er mwyn archwilio cyfrifon, archwilio CPGGau ac arolygiadau Gwerth Gorau. | 7 | 8 a 12 |
| Gwneud trefniadau i ardystio ceisiadau am grantiau, cymorthdaliadau, neu unrhyw geisiadau neu adenillion o'r fath a dderbyniwyd gan gorff archwiliedig ar gaffs y corff clan sylw. | 28 | |
| Gwneud neu hyrwyddo astudiaethau cymharu ac astudiaethau eraill i'w alluogi i wneud argymhellion dros wella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau; a thros wella rheolaeth ariannol a mathau eraill o reolaeth. | 33 | |
| Gwneud neu hyrwyddo astudiaethau ar y modd y mae gweithredu unrhyw ddarpariaeth statudol, neu unrhyw gyfarwyddyd neu arweiniad a roddir gan un o weinidogion y goron yn effeithio ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau, neu ar reolaeth ariannol cyrff archwiliedig (ac eithrio cyrff y gwasanaeth iechyd). | 34 | |
| Cyfarwyddo cyrff perthnasol i gyhoeddi gwybodaeth a fydd yn hwyluso'r gwaith o dynnu cymariaethau rhwng y gwahanol gyrff perthnasol: a rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol. | 44 | |
| Arolygu'r modd y mae awdurdod yn cydymffurfio ag agwedd benodol ar werth gorau os caiff gyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud hyn. | 10 | |

| *Pwerau* | *Dedff 1998 Act adran* | *Deddf 1999 Act adran* |
|---|---|---|
| Arolygu'r modd y mae awdurdod yn cydymffurfio â gwerth gorau yn ôl gofynion Rhan 1 o'r Ddeddf. | 10 | |
| Cyfarwyddo archwiliwr i gynnal archwiliad arbennig os yw'n ymddangos i'r Comisiwn fod hynny'n ddymunol; neu ar gais etholwr llywodraeth leol, ac eithrio mewn un o gyrff y gwasanaeth iechyd. | 25 | |
| Archwilio cyfrifon corff, gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, a chytundeb y corff, yr ymddengys i'r Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn gysylltiedig a llywodraeth leol neu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol; ac nid yw'n gorff yn ddarostyngedig i archwiliad. | 29 | |
| Ar gais unrhyw gorff archwiliedig, hyrwyddo neu wneud astudiaethau gyda'r bwriad o wella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli neu weithredu'r corff archwiliedig. | 35 | |
| Ar gais cyrff addysgol penodol, hyrwyddo neu wneud astudiaethau gyda'r bwriad o wella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli neu weithredu cyrff addysgol penodol. | 36 | |
| Ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol, cynorthwyo unrhyw astudiaeth gyda'r bwriad o wella darbodusrwydd, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd perfformiad awdurdodau lleol wrth gyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. | 37 | |
| Ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol, cynorthwyo unrhyw astudiaeth gyda'r bwriad o wella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac ansawdd perfformiad awdurdodau Ileol wrth gyflawni eu swyddogaethau parthed gweinyddu budd-daliadau tai a'r budd-dâl treth gyngor. | 38 | |
| Hwyrach y bydd y Gorfforaeth Tai a'r Comisiwn yn cytuno ar raglenni o astudiaethau cymharu gyda'r bwriad o alluogi'r Comisiwn i wneud argymhellion dros wella darbodusrwydd, Jeffeithlonrwydd ac effeithiolrwydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. | 40 | |
| Ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gorff archwiliedig roi gwybodaeth benodol i'r Comisiwn y mae ei hangen arno at ddiben gyflawni ei swyddogaethau. | 48 | |

**Darpariaeth Ariannol**

5. Mae Deddf 1998 (paragraff 8 o Atodlen 1) yn rhoi'r dyletswydd ar y Comisiwn i reoli ei faterion fel na fydd ei incwm o ffioedd ac incwm arall, os ychwanegir y naill flwyddyn at y llall, yn llai na'i wariant y gellir ei godi yn briodol ar ei gyfrif incwm a gwariant. Mae hyn yn berthnasol ar wahân i wahanol feysydd swyddogaethol gwaith o fewn y Comisiwn.

Nod y Comisiwn yw cynhyrchu digon o warged i fodloni ei ofynion cyfalaf gwaith ei hun, a darparu cronfeydd wrth gefn rhag ymgyfreitha posibl. Mae gan y Comisiwn

rwymedigaeth achlysurol fel y nodir yn nodyn 20 i'r cyfrifon hyn parthed ei indemniad ar gyfer archwilwyr penodedig rhag costau a gafwyd mewn perthynas ag achosion Ilys sy'n deillio o'u harfer o swyddogaethau cyfreithiol arbennig. Gall unrhyw gostau sy'n deillio o dan delerau'r indemniad fod yn sylweddol, ond ni ellir rhagweld eu hamseriad. Nodir cronfeydd wrth gefn y Comisiwn yn nodyn 13 i'r cyfrifon hyn, ac maent fel y ganlyn:

| | *1999* | *1998* |
|---|---|---|
| | *£m* | *£m* |
| Llywodraeth Leol | 6,902 | 6,384 |
| Iechyd | 4,110 | 4,113 |
| | 11,012 | 10,497 |

Nod y Comisiwn yw talu pob un o'i gyflenwyr o fewn cyfnod rhesymol i dderbyn ei anfoneb ac ymhob achos o fewn 30 diwrnod. Mae'n bolisi gan y Comisiwn i dalu pob un o'i gredydwyr yn brydlon yn unol â Chôd Talu'n Brydlon Cydffederasiwn Diwydiannau Prydain. Ar 31 Hydref 1999 27 diwrnod oedd nifer gyfartalog y diwrnodau yr oedd anfonebau yn weddill (1998 - 17 diwrnod heb gynnwys costau yn ymwneud ag achos ymgyfreitha mawr nad yw'n cynnwys credydwyr masnach arferol y Comisiwn).

**Cyfle Cyfartal a Chyflogeion yn cymryd rhan**

6. Polisi'r Comisiwn yw sicrhau na chamwahaniaethir yn erbyn cyflogeion presennol ac ymgeiswyr am swyddi ar sail rhyw, statws priodasol, hil, crefydd, lliw, tarddiad ethnig, oedran, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd personol. Ymgynghorir â'r cyflogeion yn rheolaidd mewn modd ffurfiol trwy Bwyllgor Negydu ar y Cyd sydd hefyd yn negydu tâl ac amodau â'r rheolwyr.

**Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol**

7. Yn unol â pharagraff 11(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 1998 mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cyfarwyddo'r Comisiwn i baratoi Datganiad Cyfrifon. Cyhoeddir y Cyfarwyddyd Cyfrifon hwn fel atodiad i'r cyfrifon hyn. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun teg a chywir o sefyllfa'r Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn ynghyd â'i incwm a'i wariant a'i lifau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol Pr Comisiwn:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifenyddion Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo priodol mewn modd cyson;
- Ilunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd y safonau cyfrifo perthnasol, gan ddatgelu ac egluro unrhyw wyro perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail parhad busnes oni fydd hynny'n amhriodol;
- paratoi cyfrifon cost hanesyddol wedi'u haddasu os yw hynny'n berthnasol. Ni pharatowyd y rhain am nad yw'r addasiadau sydd eu hangen yn berthnasol i gyfrifon y Comisiwn.

O dan baragraff 11(4) o Atodlen 1 i Ddeddf 1998, ynghyd â darpariaeth bellach o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 mae'n ofynnol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol gyflwyno'r cyfrifon hyn ynghyd â'i adroddiad arnynt ger bron y Senedd a'r Cynulliad Cenedlaethol.

Yn unol â pharagraff 14(2) o Atodlen 1 i Ddeddf 1998 ynghyd â darpariaeth bellach o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 cyflwynir adroddiad blynyddol y Comisiwn ar gyflawni ei swyddogaethau ger bron yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau i'w gyflwyno ger bron dau ŷ'r Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r adroddiad yn cynnwys arolwg o'r flwyddyn flaenorol ynghyd â rhagolwg o ddatblygiadau at y dyfodol ac fe'i cyflwynir ar y cyd â'r cyfrifon hyn.

Mae Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau wedi penodi'r Rheolwr Archwilio fel Swyddog Cyfrifo'r Comisiwn. Nodir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol drosto ynghyd â chadw cofnodion cywir, yn y Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cyrff Cyhoeddus Anadrannol.

**Rheoli Corfforaethol**

8. Mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i'r safonau uchaf o broffesiynoldeb ymhob un o'i weithrediadau ac i gydymffurfio â'r agweddau perthnasol ar y Côd Arfer Gorau fel y'i cyhoeddwyd gan Bwyllgor Cadbury ar Agweddau Ariannol ar Reolaeth Gorfforaethol ym mis Rhagfyr 1992.

Cyfarfu'r Comisiwn 11 gwaith yn ystod y flwyddyn i ymdrin â busnes y Comisiwn. Mae rhestr o'r Comisiynwyr ar ddechrau'r Rhagair i'r Cyfrifon. Yn ogystal â chyfarfodydd rheolaidd y Comisiwn, sefydlwyd pum Panel i arolygu ac ystyried eitemau penodol. Caiff cylchoedd gorchwyl ac aelodaeth pob un o'r Paneli eu harolygu'n rheolaidd.

Roedd aelodaeth y Paneli ar 31 Hydref 1999 fel a ganlyn:

| | *Panel Ymgynghorol y Comisiwn* | *Archwilio* | *Prynu a Rheoli Ansawdd* | *Yr Archwiliad Dosbarth* | *Gwerth Gorau a GAA* |
|---|---|---|---|---|---|
| Syr Ron Watson CBE | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Mr J D Orme FCA | ✓ | | ✓ | | |
| Mr J R Foster OBE | | | ✓ | | ✓ |
| Ms H Rowland | | | ✓ | | ✓ |
| Mrs I Tarry CBE | | | ✓ | | |
| Mrs A Fresko | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| Mr R A Arthur | | | | ✓ | ✓ |
| Ms R Lowe | | | | ✓ | ✓ |
| Syr David Williams CBE | | | | | |
| Y Fonesig Helena Shovelton | ✓ | | | | ✓ |
| Syr Peter Soulsby | | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Yr Athro S Richards | | | | | ✓ |
| Dr J Curson | | ✓ | | | |
| Mr B Woolfe | | ✓ | | | |
| *Cadeiryyddion y Paneli* | Y Fonesig Helena Shovelton Nodyn 1 | Syr Ron Watson | Jeremy Orme | Adrienne Fresko | Y Fonesig Helena Shovelton |

Nodyn 1: Mae hwn yn gweithredu fel Panel Cydnabyddiaeth y Comisiwn

**Panel Ymgynghorol y Comisiwn**

Mae Panel Ymgynghorol y Comisiwn yn cynnwys Cadeirydd y Comisiwn a Chadeiryddion pob un o'r Panel! eraill. Mae'n ystyried y prif faterion sy'n deillio o waith y Paneli eraill gan gyflwyno adroddiadau ar yr ystyriaethau hynny i'r Comisiwn Ilawn. Mae hefyd yn sicrhau bod y polisïau cydnabyddiaeth yn adlewyrchu anghenion y Comisiwn a'r farchnad y mae'n gweithredu ynddi. Fel rhan o'r cyfrifoldebau hyn, mae'r Panel yn cymeradwyo cydnabyddiaeth y Rheolwr a'r Cyfarwyddwyr ac achosion penodol yn ymwneud ag ymddeol yn gynnar neu ymddeol oherwydd salwch ynghyd â chytundebau diswyddo. Cyfarfu wyth gwaith yn ystod y flwyddyn.

**Y Panel Archwilio**

Mae'r Panel Archwilio, dan gadeiryddiaeth Syr Ron Watson, yn cyfarfod bob chwarter fel arfer ac yn ystod y flwyddyn cyfarfu purr gwaith. Ei dasgau allweddol yw:

- Cytuno ar y rhaglen archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn i ddod, a derbyn adroddiadau'r archwiliwr mewnol. Mae hefyd yn monitro perfformiad yr archwilwyr mewnol a'r modd y caiff argymhellion archwiliadau eu gweithredu;
- Derbyn llythyr rheoli yr archwiliwr allanol, ac adroddiadau gan staff y Comisiwn ar y cynnydd a wneir wrth gyflwyno unrhyw argymhelliad o bwys i newid gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae gan yr archwilwyr allanol a'r archwilwyr mewnol fel ei gilydd fynediad uniongyrchol i gadeirydd y Panel Archwilio;
- Ystyried a chyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd a manwl gywirdeb cyfrifon, gwybodaeth a rheolaethau rheoli.

**Paneli Eraill**

Prif amcanion y 3 Phanel eraill yw:

Mae'r Panel Prynu a Rheoli Ansawdd yn argymell penodiadau archwilwyr, goruchwylio'r gwaith o lunio cyngor technegol a roddir i'r archwilwyr a sicrhau bod ansawdd eu gwaith yn bodloni'r safonau a bennwyd gan y Comisiwn.

Mae Panel yr Archwiliad Dosbarth (AD), sef darparwr archwiliad mewnol y Comisiwn, yn gweithredu'n Iled annibynnol o fewn y fframwaith rheoliadol. Mae Panel yr Archwiliad Dosbarth yn goruchwylio a chynghori ar strategaeth a pherfformiad yr AD gan sicrhau bod y Comisiwn llawn yn ystyried materion AD perthnasol, Ile y bo'r angen.

Mae'r Panel Gwerth Gorau a GAA yn datblygu strategaeth GAA y Comisiwn ac yn monitro prosesau GAA, o'r broses o ddethol astudiaethau hyd at eu cyflwyno'n lleol. Mae'n goruchwylio gwaith y Comisiwn wrth ddatblygu cronfeydd data cymharu ac yn datblygu ymagwedd y Comisiwn tuag at Werth Gorau.

**Y Flwyddyn 2000**

9. Cymerodd y Comisiwn Archwilio gamau i sicrhau bod y systemau busnes allweddol, gan gynnwys cyfrifiaduron, meddalwedd, a chyfarpar cyfathrebu, yr oedd eu hangen arno i barhau â'i fusnes yn parhau i weithredu cyn, yn ystod ac ar of 1 Ionawr 2000.

Cafwyd y sicrwydd hwn trwy archwilio'r holl systemau yn barhaus, gan roi'r flaenoriaeth o ran adnoddau i systemau busnes hanfodol. Arolygwyd pob un o'r systemau cyfrifo gan roi systemau newydd yn eu Ile neu eu profi'n llawn gyda'r bwriad o gyflwyno systemau newydd a'u cyfuno cyn cyfnod y mileniwm newydd pe ceid diffygion.

£132k oedd cyfanswm cost Refeniw amcangyfrifedig y cynlluniau hyn yn ystod y flwyddyn heb gynnwys costau mewnol a chostau meddalwedd newydd.

**Rheolaeth Ariannol Fewnol**

10. Enwebwyd y Rheolwr, Andrew Foster, fel Swyddog Cyfrifo'r Comisiwn, ac mae'n cydnabod ei gyfrifoldebau dros sicrhau bod y Comisiwn yn cynnal a gweithredu system reolaeth ariannol fewnol effeithiol. Diben system reolaeth fewnol y Comisiwn yw darparu sicrwydd rhesymol y caiff asedau eu diogelu, y caiff trafodion eu hawdurdodi a'u cofnodi'n gywir ac y caiff gwallau neu achosion o afreoleidd-dra perthnasol eu hatal neu, pe baent yn digwydd, eu canfod yn brydlon.

Seilir y system rheolaeth ariannol fewnol ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, rheoliadau ariannol, gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, a gwahanol lefelau o ddirprwyo fel y nodwyd gan Adran Drysorlys EM, Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth â'r Rhanbarthau ac Aelodau'r Comisiwn Archwilio.

Yn benodol mae'n cynnwys:

- systemau cyllido cynhwysfawr ynghyd â chyllideb flynyddol a gymeradwyir gan yr Aelodau;
- pennu targedau i fesur perfformiad ariannol a mathau eraill o berfformiad;
- arolygon rheolaidd gan yr Aelodau yn fisol ac adroddiadau ariannol blynyddol sy'n dangos perfformiad ariannol o'i gymharu â'r rhagolygon;
- canllawiau rheoli priodol a phenodol ar fuddsoddiad cyfalaf;
- disgyblaeth ffurfiol wrth reoli projectau fel y bo'n briodol.

Mae gan y Comisiwn Archwilio archwilwyr mewnol, y mae eu gwaith yn canolbwyntio ar weithgareddau allweddol a bennir trwy ddadansoddi'r meysydd â'r risg uchaf. Gwneir y gwaith hwn yn gyson â'r safonau a diffinnir yn Llawlyfr Archwiliad Mewnol y Llywodraeth, ac yn unol â'r cynllun archwilio mewnol blynyddol a gymeradwyir gan y Panel Archwilio. Mae'r archwilwyr mewnol yn cyflwyno adroddiadau i'r Swyddog Cyfrifo â'r Panel Archwilio yn rheolaidd ac mae ganddynt fynediad uniongyrchol Pr Cadeirydd ac Aelodau'r Panel Archwilio.

Caiff y gwaith o arolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, y Panel Archwilio, y cyfarwyddwyr gweithredol o fewn y Comisiwn sy'n gyfrifol dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth ariannol, ynghyd â'r sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli.

*Helena Shovelton*
Cadeirydd
*A. W. Foster*
Y Rheolwr Archwilio
2 Mawrth 2000

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol i Dai'r Senedd ac i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwyf yn tystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 9 i 22 yn unol a Deddf y Comisiwn Archwilio 1998 wedi ei ymestyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorchymun 1999 (Trosglwyddiad Gweithredoedd). Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanseyddol a'r polisiau cyfrifo a nodir ar dudalenv 12.

**Priod gyfrifoldebau'r Comisiwn Archwil, Rheolydd Archwiliad a'r Archwilydd**

Fel y disgrifiwyd ar dudalennau 4 a 5 yn y Rhagair i'r cyfrifon, mae'r Comisiwn Archwilio a'r Rheolydd Archwiliad yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Comisiwn Archwilio a'r Rheolydd Archwiliad hefyd yn gyfrifol am bararoi'r Rhagair. Pennir fy nghyfrifoldebau, fel archwilydd annibynnol, yn of statud, ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Byddaf yn rhoi fy marn i chi ar a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a gawsant eu paratoi'n gywir yn unol a Deddf y Comisiwn Archwilio 1998 ac a'r cyfarwyddiadau a wnaed gan y Trysorlys yn of gofynion y Ddeddf, ac a gafodd y gwariant a'r incwm ymhob ystyr berthnasol eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio a'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Byddaf hefyd cyflwyno adroddiad os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson a'r datganiadau ariannol, os na chadwodd y Comisiwn gofnodion cyfrifo cywir, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Byddaf yn arolygu a yw'r datganiad ar dudalen 7 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Comisiwn ag arweiniad y Trysorlys sef "Rheoli corfforaethol: datganiad ar y system o reolaeth ariannol fewnol". Byddaf yn cyflwyno adroddiad os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson a gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

**Sail y farn**

Cynheliais fy archwiliad yn unol a'r Safonau Archwilio a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio tystiolaeth, ar sail prawf, sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Comisiwn Archwilio a'r Rheolydd Archwiliad wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Comisiwn, a gawsant eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodeath a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi digon o dystiolaeth I roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gam-ddweud perthnasol, a achoswyd naill ai o ganlyniad i wall, twyll neu drwy afreoleidd-dra arall a bod y gwariant a'r incwm, ymhob ystyr berthnasol, wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio a'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau ariannol hefyd.

**Barn**

Yn fy marn i:

- rhydd y datganiadau ariannol ddarlun gwir a theg o gyflwr materion y Comisiwn Archwilio ar 31 Hydref 1999 ac o'r gwarged, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny a'u bod wedi eu paratoi'n gywir yn unol a Deddf y Comisiwn Archwilio 1998 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn of gofynion y Ddeddf gan Ysgrifenyddion Gwladol yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ac ar gyfer Cymru; ac
- ymhob ystyr berthnasol defnyddiwyd y gwariant a'r incwm at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio a'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

*John Bourn*
Rheolydd a'rArchwilio Cyffredinol
19 Mai 2000

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SW1W 9SP

# Cyfrif Incwm a Gwariant ar Gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Hydref 1999

| | Nodyn | **1999 £000** | 1998 £000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm gweithredol** | | | |
| Incwm ffi gros | 2 | **104,589** | 101,983 |
| Incwm gweithredol arall | 3 | **7,007** | 3,173 |
| | | **111,596** | 105,156 |
| **Costau gweithredol** | | | |
| Costau'r staff a'r aelodau | 4 | **58,669** | 54,928 |
| Gwasanaethau a brynwyd i mewn | 5 | **33,240** | 33,991 |
| Costau gweithredol eraill | 6 | **18,652** | 15,931 |
| Costau tybiannol | 1(xi) | **645** | 625 |
| | | **111,206** | 105,475 |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredol gan gynnwys costau tybiannol** | 2 | **390** | (319) |
| Ychwanegu costau tybiannol yn ôl | 1(xi) | **645** | 625 |
| Llog Net dderbyniadwy | 7 | **539** | 720 |
| Costau net sy's deillio o ymgyfreitha | 8 | **(1,059)** | (853) |
| **Gwarged ar gyfer y flwyddyn** | | **515** | 173 |

*Mae'r nodiadau sy'n dilyn yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.*

*Nodir y symudiadau ar y cronfeydd wrth gefn yn nodyn 13.*

Nid oedd unrhyw enillion neu golledion cydnabyddiedig heblaw am ganlyniad y flwyddyn.

Mae pob un o'r canlyniadau uchod yn deillio o weithrediadau parhaus.

# Mantolen ar 31 Hydref 1999

| | Nodyn | **1999** **£000** | 1998 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | 10 | **2,874** | 2,061 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Deledwyr a gwaith cyfredol | 11 | **20,629** | 15,838 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | **6,807** | 9,219 |
| | | **27,436** | 25,057 |
| **Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | | |
| Credydwyr a thaliadau cronedig | 12 | **19,298** | 16,621 |
| Aseday cyfredol net | | **8,138** | 8,436 |
| Cyfanswm asedau llair rhwymedigaethau cyfredol, sef asedau net | | **11,012** | 10,497 |
| **Cronfeydd Wrth Gefn** | | | |
| Cronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn | 13 | **11,012** | 9,561 |
| Cronfa Ymgyfreitha Wrth Gefn | | **—** | 936 |
| | | **11,012** | 10,497 |

*Mae'r nodiadau sy'n dilyn yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.*

*Helena Shovelton*
Cadeirydd

*A. W. Foster*
Y Rheolwr Archwiliad — 2 Mawrth 2000

# Datganiad Llif Arian Parod ar Gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Hydref 1999

| | Nodyn | **1999 £000** | 1998 £000 |
|---|---|---|---|
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredol** | 14 | **(1,291)** | (1,172) |
| **Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | **539** | 720 |
| Mewnlif arian parod net o adenillion fuddsoddiadau a gwasasanaethu cyllid | | **539** | 720 |
| **Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol** | | | |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol | | **(1,660)** | (885) |
| All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi | | **(1,660)** | (885) |
| **Lleihad mewn arian parod** | 15 | **(2,412)** | (1,337) |

# Nodau I'r Cyfrifon

**Arferion a Pholisïay Cyfrifo**

**1(i)** Paratowyd y cyfrifon trwy arfer cost hanesyddol ar ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a chyda chymeradwyaeth Trysorlys EM, o dan baragraff 11 (1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf 1998.

Mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion Deddf Cwmnïau 1985, heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddwyd, a'r safonau cyfrifo perthnasol cyn belled ag y mae'r gofynion hynny yn briodol.

**(iii)** Priodolwyd gwariant Llywodraeth Leol a'r NHS yn uniongyrchol i'r gweithgaredd perthnasol lie bo hynny'n bosibl; Ile nad oedd hynny'n bosibl, priodolwyd gwariant cyffredin i bob gweithgaredd ar sail yr oriau a weithiwyd.

**(iv)** Codir rhenti prydles gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

**(v)** Seilir yr incwm ffi gros ac incwm gweithredol arall ar werth y gwaith y gellir codi ar ei gyfer heb gynnwys TAW.

**(vi)** Credydir incwm ffi i'r flwyddyn gyfrifo pan wnaed y gwaith waeth beth yw'r flwyddyn gyfrifo sy'n cael ei harchwilio, ac mae'n cynnwys gwerth amcangyfrifedig gwaith y gellir ei sylweddu sydd yn mynd rhagddo ar 31 Hydref 1999.

**(vii)** Credydir incwm arall i'r flwyddyn pan y'i enillir. Yn ystod y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2000, bydd y Comisiwn yn derbyn grant i dalu am y costau rhagbaratoal i ymgymryd â'r cyfrifoldebau ychwanegol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. Caiff cyfran y grant hwn sy'n ddyledus erbyn 31 Hydref 1999 ei chynnwys o fewn yr incwm gweithredol arall yn y cyfrifon hyn.

**(viii)** Ni thrinnir y costau net sy'n deillio o ymgyfreitha fel rhan o ganlyniad gweithredol y Comisiwn, and fe'u dangosir ar wahân yn y Cyfrif Incwm a Gwariant.

**(ix)** Darperir dibrisiant ar gyfer pob un o'r asedau sefydlog wedi'i gyfrifo i ddileu cost pob ased, llai y gwerth gweddilliol amcangyfrifedig, mewn rhandaliadau blynyddol cyfartal yn ystod ei fywyd defnyddiol disgwyliedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dodrefn a Ffitiadau | 10 mlynedd |
| Cyfarpar Cyfrifiadurol | 3 blynedd |
| Cyfarpar Swyddfa | 5 mlynedd |

Dilëir cyfrifiaduron desg unigol yn y flwyddyn brynu.

**(x)** Mae'r Comisiwn yn darparu cynllun pensiwn budd-dâl penodol ar gyfer ei gyflogeion, a chaiff costau hwn eu codi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant.

**(xi)** Cyfrifir Cost Dybiannol Cyfalaf yn unol ag Arweiniad y Trysorlys a'u codi ar y Costau Gweithredol Eraill. Megis yn y cyfnod ariannol sy'n dod i ben ar 31 Hydref 1998 caiff y Gost Dybiannol ei hychwanegu'n ôl i'r canlyniad gweithredol. Priodolwyd y gost hon i wariant Llywodraeth Leol a'r NHS ar sail cronfeydd wrth gefn o fewn pob gweithgaredd.

**Dadansoddiad o'r incwm a'r gwariant** 2

| | | 31 Hydref | | 31 Hydref | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **1999** | **1999** | 1998 | 1998 |
| | | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Llywodraeth Leol** | | | | | |
| Incwm | | | | | |
| Archwiliad Dosbarth | Archwiliad | | **37,343** | | 36,370 |
| Archwiliad Dosbarth | Adran 28 | | **11,634** | | 8,739 |
| Cwmnïau Preifat | Archwiliad | | **13,469** | | 14,280 |
| Cwmnïau Preifat | Adran 28 | | **2,888** | | 3,301 |
| | | | **65,334** | | 62,690 |
| Costau | | | | | |
| Archwiliad Dosbarth | Archwiliad | **33,304** | | 31,949 | |
| Archwiliad Dosbarth | Adran 28 | **8,200** | | 7,377 | |
| Cwmnïay Preifat | Archwiliad | **12,210** | | 12,909 | |
| Cwmnïau Preifat | Adran 28 | **2,619** | **56,333** | 3,022 | 55,257 |
| Gwarged wedi'r archwiliad | | **9,001** | | 7,433 | |
| Cost Budd Tybiannol | | **394** | | 381 | |
| Cost uniongyrchol net o'r Astudiaethau | | **2,864** | | 2,513 | |
| Cost uniongyrchol net o'r Arolygiadau | | **776** | | 37 | |
| Cost uniongyrchol Net o Gyfarwyddiaethau'r Comisiwn | | **4,099** | | 4,477 | |
| Cyfanswm | | **868** | | 25 | |
| **Gwasanaeth Iechyd Gwladol** | | | | | |
| Incwm | | | | | |
| Archwiliad Dosbarth | Archwiliad | | **27,056** | | 26,036 |
| Cwmnïau Preifat | Archwiliad | | **12,199** | | 13,257 |
| | | | **39,255** | | 39,293 |
| Costau | | | | | |
| Archwiliad Dosbarth | Archwiliad | **23,370** | | 22,141 | |
| Cwmnïau Preifat | Archwiliad | **10,929** | **34,299** | 11,871 | 34,012 |
| Gwarged wedi'r archwilio | | | **4,956** | | 5,281 |
| Cost Budd Tybiannol | | | **251** | | 244 |
| Cost uniongyrchol net o'r Astaudiaethau | | | **2,394** | | 2,275 |
| Cost uniongyrchol net o Gyfarwyddiaethau'r Comisiwn | | | **2,789** | | 3,106 |
| Cyfanswm | | | **(478)** | | (344) |

Mae'r gwaith o dan Adran 28 yn ymwneud ag ardystio ceisiadau am grant yn bennaf fel y disgrifir yn y Rhagair i'r Cyfrifon ym mharagraff 4 (iii).

**Dadansoddiad o’r incwm a’r gwariant** *(parhad)*

**2 Caiff y gwaith canlynol a ariennir ar wahân ci gynnwys yn y dadansoddiad uchod ar gyfer Llywodraeth Leol**

Eleni ymgymerodd y Comisiwn â gwaith ar y cyd gydag Arolygiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol (Adran 37) a’r Gorfforaeth Tai (Adrannau 40,41, 42). Ymgymerodd y Comisiwn hefyd ag arolygu Awdurdodau Addysg Lleol ar y cyd ag OFSTED (Adran 41, Deddf Addysg 1997). Ymgymerir â’r gwaith hwn ar sail hunan-ariannu.

| | | 1999 £000 | 1998 £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost Uniongyrchol o’r Astudiaethau** | | | |
| Corfforaeth Tai (Adrannau 40, 41, 42) | Incwm | **86** | 115 |
| | Costau | **111** | 118 |
| | | **(25)** | (3) |
| **Cost Uniongyrchol o’r Arolygiadau** | | | |
| i. Arolygon ar y Cyd o’r Gwasanaethau Cymdeithasol (Adran 37) | Incwm | **1,201** | 675 |
| | Costau | **1,265** | 712 |
| | | **(64)** | (37) |
| ii. OFSTED (Adran 41, Deddf Addysg 1997) | Incwm | **592** | — |
| | Costau | **558** | — |
| | | **34** | — |
| **Cost Uniongyrchol o Gyfarwyddiaethau’r Comisiwn** | | | |
| Gwerth Gorau | Incwm | **1,890** | — |
| | Costau | **1,890** | — |
| | | **—** | — |

**Incwm gweithredol arall 3**

| | 1999 £000 | 1998 £000 |
|---|---|---|
| Costau cyfreithiol a ad-dalwyd | **481** | 377 |
| Cyhoeddiadau a Chynadleddau | **1,060** | 1,319 |
| Arolygiadau | **1,793** | 675 |
| Grant DETR ar gyfer menter Gwerth Gorau (gweler y nodyn isod) | **1,890** | — |
